Ble i aros

Dylid anfon ceisiadau am lety a blaendal o £25 (nas dychwelir) cyn gynted â phosibl ac erbyn **30 Mehefin** fan bellaf. Gweler Ffurflen Archebu Llety.

Tâl Cofrestru

Mae'n anorfod bod nifer o gostau'n gysylltiedig â chynnal cynhadledd o'r fath yma. Mae'r costau wedi eu cadw mor isel â phosibl.

Byddem yn ddiolchgar pe bai'r cynadleddwyr yn ystyried hyn yn ystod yr offrwm yn oedfaon yr hwyr neu drwy roi cyfraniad yn y blychau yn y cyntedd.

Hoffem awgrymu'r prisau canlynol fel arweiniad i bobl wrth gyfrannu tuag at y costau:

Diwrnod - £5 **Wythnos - £20**

Aros yn Aberystwyth

Mae amrywiaeth o lefydd i aros am brisau rhesymol ar gael y flwyddyn yma. Ond os byddwch yn penderfynu archebu lle eich hun, gellir gwneud hynny drwy gysylltu gyda'r Swyddfa Dwristiaeth yn Aberystwyth lle gellir cael gwybodaeth am nifer o westai a gwely a brecwast. Rhif ffon 01970 612125

A) Gwesty'r Marine (ar lan y môr)

Gwely a brecwast a phryd nos.

1) Ystafell ddwbl neu ddau wely sengl ar lawr 1 neu 2. Lifft ar gael. Pob ystafell yn *en suite*:
   (a) Ffrynt: Pris y noson **£57** y pen
   (b) Cefn: Pris y noson **£54.50** y pen
2) Ystafell sengl ar lawr 1 neu 2. Lifft ar gael. Pob ystafell yn *en suite*:
   (a) Ffrynt: Pris y noson **£67** y pen
   (b) Cefn: Pris y noson **£62** y pen

Pris am ystafelloedd i deuluoedd ar gael hefyd

Pryd nos ar gael i ymwelwyr. Pris **£15.50** y pen

B) Neuaddau Ceredigion, Pumlumon, Tŷ Gwerin (ar lan y môr)

Llety hunanarlwyol gyda **3-6 person** yn rhannu fflat. **Pob ystafell yn sengl** o fewn y fflat.

Bydd croeso i aros o **nos Sadwrn** ymlaen os dymunir.

Noder y gostyngiadau sylweddol o aros am 5 neu 7 noson.

Pris y pen Oedolion	**£22.50** y noson	**£95** (5 noson)	**£125** (7noson)
Pris y pen Plant (2-13 oed)	**£13.00** y noson	**£50** (5 noson)	**£85** (7noson)

C) Llety'r Ifanc, Canolfan Sant Paul

Darperir llety ac ymborth i ferched a bechgyn 14-17 oed. Rhaid dod â sach gysgu.

Pris: **£10.00** y noson (yn cynnwys brecwast a phryd nos).

Bargen: Os telir y pris llawn am 5 noson cyn **31 Gorffennaf** ceir gostyngiad o **£5** h.y. **£45** yn lle **£50**

Ch) Merched dros 18:

Fflat hunanarlwyol yn Neuadd **Ceredigion, Pumlumon neu Tŷ Gwerin.**

Pris: **£22.50** y noson **£95** (5 noson) **£125** (7noson)

Noder: Pryd nos ar gael yn Sant Paul am **£3.00** y noson. Rhaid archebu ymlaen llaw.

D) Bechgyn dros 18: Festri Alfred Place

Darpariaeth i gysgu yn unig yn y Festri. Rhaid dod â sach gysgu.

Pris : **£4.00** y noson

Noder: Brecwast (**£1**) a phryd nos (**£3.00**) ar gael yn Sant Paul ond rhaid archebu ymlaen llaw.

DD) Maes Carafanau Midfield, Penparcau

Cysyllter â Mrs Sheila Hughes, Maes Carafanau Midfield, Southgate, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4DX. Ffôn: 01970 612542 Ffacs: 01970 623250.